RGC WRN

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network

Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales



# Fferm Blaencennen

Coetir a Choedwigaeth

## FFERMIO A CHADWRAETH YN GWEITHIO MEWN CYTGORD

Mae ffermwyr a thirddeiliaid yng Nghymru wedi ymrwymo i helpu i gynnal ein hadnoddau naturiol, ac mae miloedd yn cymryd rhan yng nghynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Glastir.

Un o'r ffermwyr a thirfeddianwyr niferus sy'n manteisio ar y cynllun yw'r ffermwr defaid mynydd ac ucheldir Garry Williams o Flaencennen yng Ngwynfe, Sir Gaerfyrddin. Mae gan fferm Garry 295 erw, gan gynnwys 25 erw o goetir.

Mae Garry yn rheoli tir Blaencennen, gan sicrhau ei fod yn cynhyrchu bwyd mor effeithlon â phosibl ac, fel llawer o ffermwyr, mae'n gwbl ymwybodol o'r effeithiau y mae ffermio yn ei gael ar yr amgylchedd.

Felly, wrth chwilio am gyfleoedd i wella'r amgylchedd a bioamrywiaeth ar ei fferm, gwelodd Garry fanteision posibl ymuno â chynllun Glastir Uwch.



## MANTEISION Y CYLLID

> Mae Glastir, sef cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, yn cynnig cymorth ariannol i ffermwyr a thirddeiliaid i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol sydd â'r nod o frwydro yn erbyn newid hinsawdd; gwella rheolaeth dŵr a chynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae Glastir Uwch yn un o sawl edefyn o'r cynllun ac mae'n ymrwymiad fferm gyfan pum mlynedd.

Ers ymuno â'r cynllun, mae Garry wedi gwneud gwaith amgylcheddol ar y fferm, gan gynnwys coedlannu gwrychoedd a chyflwyno cnydau gwraidd i'w gylchdro pori. Mae Garry yn plannu tua 400-600 o goed newydd bob blwyddyn. Mae'r holl goetiroedd wedi'u ffensio i gadw da byw allan, ac mae coed wedi'u plannu i gynorthwyo adfywio. Ynghyd â gweirgloddiau, mae gan y fferm laswelltir heb ei wella'n rhannol i ddarparu amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol. Mae coridorau cynefin glan nentydd hefyd wedi'u ffensio.

Mae'r cynllun wedi caniatáu i Garry weithio'r tir er budd ffermio a budd amgylcheddol, ond mae ei ymdrechion yn mynd y tu hwnt i giât y fferm. Mae ef a'i gyd-borwyr o'r un anian bellach yn rheoli'r comin lleol o dan gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Comin Glastir.





Mae ffermwyr wedi bod yn defnyddio tir comin fel adnodd pori ers cenedlaethau, ac mae'n rhan annatod o reoli tirweddau a chynefinoedd pwysig. Mae tir comin nid yn unig yn gweithredu fel adnodd amaethyddol ac amgylcheddol, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden a diwylliannol, gan ei wneud yn ased pwysig i gymunedau gwledig.



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Mae Blaencennen yn enghraifft wych o ffermio a chadwraeth yn gweithio mewn cytgord.

"Mae'r cymorth ariannol a dderbyniwyd drwy gynllun Glastir wedi bod mor bwysig i'n busnes ac i'r amgylchedd yma, yng Ngwynfe. Rydym ni'n defnyddio rhai caeau ar gyfer cynhyrchu bwyd, tra bod caeau eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer coetir a glaswelltiroedd. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol bod y busnes a'r amgylchedd yn gallu ffynnu ochr yn ochr.

"Mae cynhyrchu bwyd yn bwysig i mi gan mai dyna yw fy musnes craidd, ond rwy'n credu bod gofalu am yr amgylchedd yr un mor bwysig. Mae angen i ni, fel ffermwyr, edrych ar y darlun ehangach. Mae popeth yn effeithio ar ein cynhyrchiant bwyd, megis prisiau gwrtaith, iechyd y pridd, cymeriant carbon, deunydd organig, awyru pridd, iechyd hirdymor y pridd, a dŵr glân. Bydd mwy o angen am gyflenwadau bwyd lleol, ynghyd â gofalu am yr amgylchedd, a dyma lle gall Glastir ein helpu.

"Mae gofalu am ein hamgylchedd yn bwysig a bydd yn cefnogi ein busnesau a'n dyfodol, ond mae angen mwy o bobl ifanc yn y diwydiant. Mae nifer y ffermwyr yn yr ardal hon yn dirywio, a nawr mae angen inni gadw ein pobl ifanc yn yr ardal er mwyn i fusnes ffynnu. Drwy ymuno â chynlluniau fel Glastir, sy'n ein helpu ni'n ariannol gyda'r agweddau amgylcheddol, mae'n caniatáu inni fuddsoddi mewn meysydd eraill o'r busnes, gan ei wneud yn fwy gwydn, ac yn ei dro, bydd yn cadw ein cymuned leol yn fyw ac yn wydn hefyd."

Garry Williams, ffermwr a pherchennog Fferm Blaencennen